

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 22 CHWEFROR 2019

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)  
bressenol: Cynghorwyr Lancaster a/ac Sattar

50 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau

51 : CAIS AM NEWID TRWYDDED SAFLE - OLD HAVANA, HEOL EGLWYS  
FAIR

Ymgeiswyr: Dai Wigley wedi'i gynrychioli gan Bill Parry

Awdurdodau Cyfrifol: Rhys Morgan, Trwyddedu Cyngor Caerdydd  
Tony Bowley, Heddlu De Cymru

### Y Cais

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan Old Havana (Cardiff) Ltd mewn perthynas â Old Havana, 6 y Stryd Fawr, Caerdydd.

Gwnaeth yr ymgeisydd gais i amrywio'r drwydded fel a ganlyn:

- (i) I amrywio cynllun y safle yn unol â'r cynlluniau a gyflenwyd gan yr ymgeisydd.
- (ii) I ychwanegu cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio fel gweithgaredd trwyddadwy.
- (iii) I ymestyn yr oriau a ganiateir fel a ganlyn:

Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:  
Dydd Llun i Ddydd Sul 09:00 i 01:30

Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth  
wedi'i recordio: Dydd Llun i Ddydd Sul 09:00 i 01:30

Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (y tu mewn a'r tu allan):  
Dydd Llun i Ddydd Sul 23:00 i 01:30

### Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Dywedodd Tony Bowley wrth yr Aelodau fod Heddlu De Cymru yn gwrthwynebu'r cais gan fod y safle wedi'i leoli o fewn y parth effaith gronnol. Roedd y gydberthynas rhwng argaeledd alcohol a'r achosion o droseddu yn hysbys iawn ac roedd llawer iawn o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghanol y Ddinas. Roedd y cais yn ceisio amrywio'r oriau ar gyfer gwerthu alcohol a lluniaeth gyda'r hwyrnos ac arweiniodd hefyd at ddyblu capasiti'r safle.

Dyweddodd Mr Bowley fod yr ymgeiswyr wedi cysylltu â Heddlu De Cymru ac os oedd y Pwyllgor yn bwriadu caniatáu'r cais yna mae'r ymgeisydd wedi cytuno i dderbyn yr amodau a nodir yn y sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd oddi wrth Heddlu De Cymru.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, dywedodd Tony Bowley fod ystadegau'r heddlu'n cael eu cyflwyno fel tystiolaeth mewn perthynas â chyfnod o chwe mis. Dangosodd yr ystadegau rhwng 0000 a 0100 fod 35 o droseddau wedi'u cofnodi yng Nghanol y Ddinas gyfan.

Anerchodd Rhys Morgan yr Is-bwyllgor. Hysbyswyd yr Aelodau bod y safle wedi'i leoli o fewn parth effaith gronol y Cyngor ac felly bod rhagdybiaeth wrthbrofadwy y byddai'n rhaid gwrthod ceisiadau am drwyddedau newydd neu amrywiadau o drwyddedau presennol. Er mwyn i'r drwydded gael ei chaniatáu, byddai angen i'r ymgeiswyr ddangos na fyddai unrhyw effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu. Dywedodd Rhys Morgan nad oedd yr Atodlen Weithredu a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn mynd i'r afael â'r polisi effaith gronol ac nad oedd unrhyw fesurau ychwanegol yn cael eu cynnig ac o ystyried arddull gweithredu'r safle, efallai y byddai rhywfaint o fesurau ychwanegol wedi bod yn addas.

Nodwyd bod yr ymgeiswyr wedi derbyn yr amodau a awgrymwyd gan Heddlu De Cymru a Rheoli Llygredd. Felly, mater i'r Is-bwyllgor oedd ystyried a fyddai'r safle'n gallu gweithredu heb gael effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu.

Nododd yr Aelodau fod yr amrywiad yng nghynllun y safle wedi dyblu'r capasiti. Dywedodd yr ymgeiswyr fod y safle wedi ei adnewyddu a bod yr asesiad risg tân bellach yn cael ei ganiatáu ar gyfer capasiti o 200 person. Nid oedd ôl troed yr adeilad wedi newid ond roedd cynllun y safle yn golygu bod modd symud yn rhwydd a bod y manau cywasgu wedi'u cymryd i ffwrdd.

### Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Mr Bill Parry y cais. Dywedodd Mr Parry y byddai'n hoffi rhoi sylw i'r sylwadau a ddaeth i law yn gyntaf ac yna egluro sut y byddai'r safle'n gweithio.

Gan gyfeirio at y cynrychioliadau a dderbyniwyd oddi wrth Heddlu De Cymru, dywedodd Mr Parry pe derbynnid yr amodau yna y byddent yn briodol ac yn gymesur ac y byddai'n caniatáu i'r amcanion trwyddedu gael eu hyrwyddo. Roedd yr ymgeisydd yn hapus i dderbyn yr holl amodau. Yn yr un modd, cytunodd yr ymgeisydd ar yr holl amodau a nodwyd yn y sylwadau ysgrifenedig oddi wrth Reoli Llygredd.

Gan gyfeirio at bryderon ynglŷn â chapasiti'r safle, dywedodd Mr Parry y byddai nifer penodol o bobl yng Nghanol y Ddinas ar unrhyw benwythnos penodol ac na fyddai unrhyw gynnydd yn y cyfanswm pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu.

Cyfeiriodd Mr Dai Wakeley at gynllun y safle a rhoddodd wybodaeth am sut y byddai'r safle'n gweithredu. Byddai gan y safle thema Ciwba a'r bwriad oedd dynwared bar enwog o Giwba. Byddai cynnig bwyd llawn yn cael ei ddarparu tan 11pm. Byddai gwasanaeth gweini yn cael ei ddarparu a byddai'r safle yn gweithredu fel bwyty. Gellid darparu ar gyfer cyfanswm o 92 gorchudd. Dywedwyd wrth yr

Aelodau fod y safle wedi bod ar agor ers 3 wythnos, er bod y gweithredwyr wedi rhedeg safle tebyg yn Abertawe.

Gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau. Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw ddodrefn wedi'i symud o'r safle ar unrhyw bryd yn ystod y nos fel bod 'adeg cyfnewid' yn digwydd o fwyty i far. Dywedodd Mr Bill Parry fod yr ardal allanol yn cau am 2300 ond bod gweddill yr eiddo'n aros yr un fath. Nid oedd bwriad i drosi'r safle i fod yn sefydliad yfed wrth sefyll. Mae safle Abertawe yn gweithredu fel bwyty tan 0300.

Gofynnodd Rhys Morgan a fyddai'r ymgeiswyr yn cytuno i dderbyn amod sy'n cyfyngu 70% o'r arwynebedd llawr sydd ar gael ar gyfer byrddau a chadeiriau ac i wasanaeth gweini gael ei gynnig o ran diodydd. Dywedodd Mr Parry na fyddai hyn yn caniatáu i gwsmeriaid archebu diod wrth y bar wrth aros am fwrdd. Byddai'n well gan y gweithredwyr gael hyblygrwydd, tra'n gweithredu fel bwyty.

PENDERFYNWYD - Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad a Pholisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, CYMERADWYODD yr Is-bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt.

52 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

PENDERFYNWYD – i'r Pwyllgor ystyried adroddiad ychwanegol fel y gellid cynnal yr amserlenni statudol ar gyfer ystyried y mater.

53 : CAIS AR GYFER AMRYWIO TRWYDDED SAFLE – CFELEVEN, HEOL Y GADEIRLAN

Ymgeiswyr: Jason Hamer wedi'i gynrychioli gan John Wallsgrove

Partïon â Diddordeb Y Cynghorwyr Iona Gordon a Caro Wild  
David Britton a Stuart Field, preswylwyr lleol

### Y Cais

Cais i amrywio Trwydded Safle gan Mr Jason Hamer ar gyfer CFEleven, 151 Heol y Gadeirlan, Caerdydd.

Gwnaeth yr ymgeisydd gais i amrywio'r drwydded fel a ganlyn:

I ddiwygio Amod 2 i ddarllen:

"Ni chaiff y fan tu allan yn y blaen, sydd wedi'i chynnwys yn y drwydded eiddo, ei defnyddio gan gwsmeriaid er mwyn yfed ar ôl 21:00 a'r fan tu allan yn y cefn ar ôl 23:00".

Ar hyn o bryd, mae'r amod yn nodi:

"Ni chaiff y fan tu allan yn y blaen na thu allan yn y cefn, sydd wedi'i chynnwys yn y drwydded eiddo, ei defnyddio gan gwsmeriaid er mwyn yfed ar ôl 21:00".

Sylwadau'r Partïon â Diddordeb

Anerchodd y Cynghorydd Caro Wild yr Is-bwyllgor. Dywedodd y Cynghorydd Wild ei fod yn teimlo'n anniddig i fod yn y gwrandawriad. Mewn cyfarfod cynharach roedd o'r farn y cytunwyd ar gyfaddawd rhesymol ac roedd cyflwyno cais arall yn amharchus yn ei farn ef.

Roedd y safle wedi ei leoli mewn ardal breswyl, ac mae cerddoriaeth ac yfed mewn mannau allanol yn achosi niwsans. Dywedodd y Cynghorydd Wild ei fod yn cefnogi busnesau lleol, ond mae'r cais hwn yn mynd yn rhy bell. Mae angen cyfaddawd a byddai'n hapus i drafod y telerau rhwng busnesau a thrigolion. Fodd bynnag, mae'r cais hwn yn gais afresymol.

Roedd y Cynghorydd Gordon yn cytuno â'i chyd-aelod ward ac roedd o'r farn bod yna gyfnod rhy fyr rhwng penderfyniad cynharach yr Is-bwyllgor a'r cais presennol. Roedd y safle yn hen dŷ llety a oedd yn gweini diodydd i westeion dan do. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, mae'r safle wedi newid o fod yn westy bychan i dafarn ar raddfa lawn. Mae'r safle wedi ei leoli ar ben preswyl Heol y Gadeirlan lle mae tai Fictoraidd mawr yn rhan ganol yr ardal gadwraeth. Roedd y Cynghorydd Gordon o'r farn bod teuluoedd a phlant lleol yn wynebu pryder gan nad yw'r cais yn cyd-fynd â'r amcanion trwyddedu nac o ran atal trosedd ac anrhefn ac atal niwsans cyhoeddus.

Dywedodd y Cynghorydd Gordon fod Datganiad a Pholisi Trwyddedu Cyngor Caerdydd ei hun ar yn awgrymu bod terfynu am 21:00 yn briodol ar gyfer defnydd ardaloedd allanol mewn safleoedd trwyddedig sydd mewn ardaloedd preswyl. Anogwyd yr Is-bwyllgor i ystyried hyn o ddifrif a gwrthod y cais.

Anerchodd Simon Field yr Is-bwyllgor. Dywedodd Mr Field fod y fframwaith polisi a bennwyd gan Lywodraeth y DU yn datgan na ddylai'r awdurdod wyro oddi wrth ei Ddatganiad a Pholisi Trwyddedu oni bai ei fod o fudd i gefnogi'r amcanion trwyddedu. O dan yr amgylchiadau hyn roedd yn anodd gweld sut y byddai'r amcanion trwyddedu'n cael eu hyrwyddo a byddai gwro oddi wrth y polisi yn torri'r amodau.

Dywedodd Mr Field ei fod yn byw yn Heol y Gadeirlan a bod ei ystafelloedd gwely yn edrych dros ardal allanol y teras dan sylw. Roedd yr ardal yn sylweddol ac roedd wedi'i gorchuddio a'i gwresogi. Roedd y cynnydd yn lefelau sŵn yr haf diwethaf yn amlwg ac ni fyddai wedi bod yn bosibl cysgu pe caniateid ymestyn defnydd y safle hyd 23:00. Byddai preswylwyr eraill yn cael eu heffeithio hefyd.

Anerchodd Mr David Britton yr Is-bwyllgor. Dywedodd Mr Britton fod niwsans yn ymestyn y tu hwnt i niwsans sŵn. Os na allwch fwynhau eich gardd, yna mae hynny'n niwsans. Os ydych yn bryderus, yna mae hynny'n niwsans. Roedd Mr Britton o'r farn nad oedd unrhyw reswm dros dorri penderfyniad blaenorol yr Is-bwyllgor.

### Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Mr John Wallsgrove y cais. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cais yn ceisio ymestyn y defnydd o'r ardal allanol tan 23:00. Derbyniodd Mr Wallsgrove fod y cais blaenorol yn gosod amod yn cyfyngu'r defnydd o'r ardal allanol i 21:00. Roedd yr ymgeiswyr yn ymwybodol o bolisi'r Cyngor yn y maes hwn ond nid oedd yn gywir dweud mai dim ond os gellid dangos effaith gadarnhaol y gellid trechu'r polisi.

At hynny, roedd Mr Wallsgrove o'r farn mai'r unig amcan trwyddedu a oedd yn berthnasol i benderfyniadau aelodau oedd atal niwsans cyhoeddus.

Wrth ymateb i feirniadaeth bod y cais wedi'i wneud yn gynnar yn dilyn penderfyniad blaenorol y Pwyllgor, dywedodd Mr Wallsgrove nad oedd yr ymgeiswyr yn fodlon â'r penderfyniad blaenorol ac y gallent fod wedi apelio. Yn dilyn cwynion niferus gan gwsmeriaid ac ar ôl adolygu eu hopsiynau, penderfynodd yr ymgeiswyr gyflwyno cais newydd. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod safleoedd eraill yn y cyffiniau lle y caniateir defnyddio ardaloedd allanol tan 23:00.

Dywedodd Mr Wallsgrove fod swyddogion gorfodi yn bresennol yn y safle fwy na dwsin o weithiau. Ni adroddwyd am unrhyw achosion o dorri'r rheoliadau ac ni dderbyniwyd unrhyw gynrychiolaethau gan unrhyw awdurdod cyfrifol. Derbyniwyd ond un gŵyn ddi-sail yn ymwneud â karaoke. Cynigiwyd lluniau TCC i Swyddogion Gorfodaeth. Disgrifiodd Mr Wallsgrove hyn fel honiad ffug.

Gofynnwyd i'r Aelodau roi pwys ar y ffaith nad oedd unrhyw awdurdodau cyfrifol yn bresennol ac nad oedd unrhyw gynrychiolaethau wedi dod i law. Mae'r awdurdodau cyfrifol yn arbenigwyr yn eu maes dewisedig ac nid oedd unrhyw dystiolaeth gredadwy i awgrymu y byddai'r cais yn cael effaith andwyol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod cyfres o ddigwyddiadau wedi'u cynnal ar y safle o dan Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro. Estynnwyd y defnydd o'r ardal allanol i 23:00. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ac nid oes sôn am y digwyddiadau hyn yn y sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd.

Caniateir i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn ôl ei deilyngdod a chaniatáu'r cais fel eithriad.

Dywedodd un o'r trigolion lleol nad oedd yn wir awgrymu nad oedd unrhyw gamau gorfodi wedi deillio o'r ymweliadau gan swyddogion gorfodi gan fod rhybudd wedi cael ei roi i'r ymgeiswyr ar sawl achlysur. Dywedodd Mr Wallsgrove fod Mr Hamer ar un achlysur yn defnyddio'r ardal allanol gyda nifer o ffrindiau ac nad oedd y gweithgareddau hyn yn rhai trwyddadwy. Ar yr ail achlysur roedd staff y safle yn y broses o ofyn i bobl symud i mewn. Ailadroddodd Mr Wallsgrove na dderbyniwyd unrhyw gynrychiolaethau gan Reoli Llygredd.

Dywedodd y Cynghorydd Gordon mai dim ond os ydynt yn ymateb i fater sy'n cael ei gofnodi y mae swyddogion iechyd yr amgylchedd yn mynd i safle. Eglurodd Claire Hartrey o adran Drwyddedu Caerdydd mai swyddogion y Tîm Trwyddedu a gynhaliodd yr ymweliadau gorfodi, ac nid swyddogion Iechyd yr Amgylchedd.

Cyflwynodd Mr Wallsgrove gasgliad o ffotograffau yn darlunio'r manau allanol a ddefnyddid gan fangreoedd trwyddedig eraill yn yr ardal. Nodwyd bod y safleoedd hyn yn dai tafarn hirsefydlog. Roedd Mr Wallsgrove o'r farn ei bod yn berthnasol defnyddio'r ardal allanol yn ystod Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion. Roedd yn annheg felly bod y safleoedd hyn yn cael eu dewis ac nad oedd hawl ganddynt ddefnyddio'r ardal allanol y tu hwnt i 21:00.

Dywedodd Mr Wallsgrove nad oedd y Datganiad a Pholisi Trwyddedu yn absoliwt ac y dylai'r cais gael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod. Mae'r ymgeiswyr wedi cyflwyno dystiolaeth gredadwy ac mae canllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi'r un pwyslais

o ran bod yn rhaid i'r Is-bwyllgor edrych ar sylwadau'r awdurdod cyfrifol, neu eu diffyg. Os bydd yr Is-bwyllgor yn gwyro oddi wrth y canllawiau, rhaid iddo roi rheswm.

Dyweddodd un o'r trigolion lleol ei bod yn annheg cymharu'r Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro a gynhaliwyd ym mis Tachwedd a Rhagfyr â'r amod y gwnaed cais amdano. Nid yw'n debygol y bydd yr ardal allanol yn cael ei defnyddio rhyw lawer yn ystod misoedd y Gaeaf a phrif bryder trigolion lleol yw'r defnydd o'r ardal yn ystod yr Haf. Dywedodd Mr Wallsgrove y cynhelid y Digwyddiadau Dros Dro ym mis Rhagfyr yn y cyfnod cyn y Nadolig pan oedd y safle ar eu prysuraf. Caiff yr ardal allanol ei gorchuddio ac mae hyn yn gweithredu fel rhwystr rhag y sŵn. Awgrymodd fod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn dystiolaeth dda nad oedd unrhyw niwsans.

Gofynnwyd i'r ymgeisydd os oedd wedi ceisio ymgynghori â'r preswylwyr lleol cyn cyflwyno'r gais diweddaraf. Dywedodd Mr Hamer nad oedd angen ymgynghori gan fod modd rhagweld canlyniad unrhyw ymgynghoriad. Nid oedd ychwaith yn ymwybodol o unrhyw bryderon.

### Crynhoi

Dyweddodd y Cynghorydd Gordon y penderfynodd yr is-bwyllgor 6 mis yn ôl ei bod yn briodol i'r ardal allanol gael toriad o 21:00. Nid oes dim wedi newid ac anogwyd yr Is-bwyllgor i amddiffyn y preswylwyr a gwrthod y cais.

Dyweddodd y Cynghorydd Wild fod y cyhoedd yn amlwg yn pryderu am y cais a'i bod yn afresymol caniatáu cais o'r fath mewn ardal breswyl.

Dyweddodd David Britton fod y busnesau eraill y soniodd yr ymgeiswyr amdanynt wedi hen sefydlu neu ar ben busnes Heol y Gadeirlan. Mae'r safle hwn wedi bod yn gweithredu ers dwy flynedd ac wedi'u hamgylchynu gan drigolion.

Dyweddodd Stuart Field fod y polisi'n bodoli i amddiffyn preswylwyr ac y byddai unrhyw ymestyn y tu hwnt i'r terfyn o 21:00 yn annerbyniol. Mae'r ffaith nad oes cwynion yn rhoi ormod o bwyslais ar ymwybyddiaeth y preswylwyr, a all ddisgwyl i wrandawriad yr Is-bwyllgor Trwyddedu i fod eu cyfle i wneud sylwadau.

Dyweddodd Mr Wallsgrove nad oedd yn afresymol rhagdybio oherwydd nad oedd lechyd yr Amgylchedd wedi gwneud sylw yna ni fyddai unrhyw niwsans yn cael ei achosi trwy ganiatáu'r cais. Mae'r Datganiad a Pholisi Trwyddedu yn caniatáu i'r cais gael ei roi yn ôl ei deilyngdod. Ni wnaed unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro yn yr adeilad. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychiolaeth ar lechyd yr Amgylchedd ac mae gan yr awdurdodau'r pŵer i adolygu trwydded y safle, sy'n amddiffyniad digonol ar gyfer trigolion lleol.

**PENDERFYNWYD** – i'r Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl wybodaeth; ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad a Pholisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, GWRTHOD y cais.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor bwys ar gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar trigolion lleol sy'n nodi eu bod eisoes yn cael eu haflonyddu gan sŵn o'r man allanol tu cefn. Yn benodol, rhoddodd yr Is-bwyllgor bwys ar gyflwyniad Mr Field heddiw lle y disgrifiodd

sut y mae ei eiddo'n edrych dros y safle (fel y mae eiddo preswyl eraill) a gall glywed y sŵn o'r ardal allanol. Derbyniwn ei gyflwyniad y byddai caniatáu i'r ardal agor tan 23:00 yn gwaethygu'r broblem sŵn ac yn ei gwneud yn anodd i gysgu.

Felly, penderfynodd yr Is-bwyllgor nad oedd unrhyw reswm dros wro oddi wrth yr awgrym yn Natganiad a Pholisi Trwyddedu'r Cyngor nad yw'r awr derfynol ar gyfer ardaloedd allanol sy'n agos at eiddo preswyl yn hwyrach na 21:00.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 pm